

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolwr Meddiannaeth y Rhwydwaith

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd aChanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Rheolwr Meddiannaeth y Rhwydwaith

Ydych chi’n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai’r swydd hon yw’r peth i chi.  Rydym yn chwilio am **Rheolwr Meddiannaeth y Rhwydwaith** i ymuno â thîm cyffrous sy’n tyfu.

**Cyflog:** PS4 (SCP 35-37) £43,421 - £45,441

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **un o’r lleoliadau isod:**
Bangor / Conwy / Helygain / Llandrindod / Y Drenewydd / Aberaeron

**Dyddiad cau:** 13/06/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Rydym yn chwilio am Reolwr Meddiannaeth Rhwydwaith profiadol a brwdfrydig i gefnogi ACGChC i reoli'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Bydd y rôl yn arwain ar, ac yn gyfrifol am reoli deiliadaeth rhwydwaith a rheoli llwythi annormal a staff cysylltiedig yr Asiantaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ACGChC yn cyflawni'r dyletswyddau statudol dirprwyedig, gorfodi rheoleiddiol, polisïau, prosesau a gofynion eraill mewn perthynas â Deddf Priffyrdd 1980, Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (NRSWA) a deddfwriaeth gysylltiedig arall.

Bydd y rôl yn arwain ar swyddogaethau rheoli gwaith stryd gan gynnwys Rhestr Genedlaethol o Strydoedd, Data Stryd Ychwanegol, sylwi, cydgysylltu, archwiliadau, adfer, rheoli gofod ffyrdd, rheoli digwyddiadau a chyfnodau embargo yn ardal ACGChC.

Yn ogystal, bydd y rôl yn arwain ar ddarparu cyngor a chymorth polisi a deddfwriaethol arbenigol i Lywodraeth Cymru a chyngor a chymorth technegol gweithredol i’r timau Busnes, Technoleg, Cyflenwi ac Arolygu a Gweithrediadau Rhwydwaith ar faterion rheoli rhwydwaith ehangach.



# Cyfrifoldebau

**Rheoli Meddiannaeth y Rhwydwaith**

Arwain ar swyddogaethau rheoli gwaith stryd yn cynnwys y Rhestr Strydoedd Cenedlaethol, Data Stryd Ychwanegol, gosod hysbysiadau, cydlynu, archwiliadau, adferiadau, rheoli arwynebedd ffordd, rheoli digwyddiadau, cyfnodau embargo;

Arwain ar reoli llwythi annormal;

Arwain ar reoli gorchmynion a hysbysiadau traffig parhaol / dros dro;

Arwain ar ofynion priffyrdd yn ymwneud â rheoleiddio a gorfodaeth gan gynnwys arwyddion anghyfreithlon, rhwystrau, gwaith, coed 'peryglus', caniatâd a thrwyddedau gwaith stryd ar gyfer sgipiau a sgaffaldiau, gwerthu mewn encilfeydd, caniatâd signalau traffig dros dro;

Arwain ar leihau tagfeydd ac aflonyddwch ar y rhwydwaith drwy adnabod problemau a chysylltu â budd-ddeiliaid;

Arwain ar ddatblygiad a gweithrediad prosesau ar gyfer rhoi cyngor i LlC ynghylch ceisiadau Rheolaeth Ddatblygu gyferbyn â'r rhwydwaith cefnffyrdd.

Cynorthwyo Rheolwr y Rhwydwaith, y Rheolwr Cyflawni a staff eraill yr Asiant gyda materion rheoli rhwydwaith ehangach, er enghraifft:

- Rheoli digwyddiadau e.e. cynlluniau a phrosesau wrth gefn;
- Rhaglennu gwaith
- Rheolaeth Ddatblygu

Cynrychioli'r Asiant ar faterion yn ymwneud â meddiannaeth y rhwydwaith wrth gysylltu ag eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'u cyflenwyr, Darparwyr Gwasanaeth Awdurdodau Partner, Dylunwyr, Contractwyr, Cwmnïau Gwasanaeth, Asiant Cefnffyrdd De Cymru, *Highways England*, *A55 UK Highways Ltd*, Awdurdodau Priffyrdd cysylltiedig, *GeoPlace*, yr Heddlu a Gwasanaethau Brys eraill, a mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cwmnïau Gwasanaeth ac Awdurdodau Priffyrdd.

Arwain ar ddiogelu isadeiledd cefnffyrdd rhag niwed e.e. rheoli cofnodion rhestr eiddo ar gyfer offer dan-ddaear ac ar y ddaear ar gefnffyrdd a gofynion arbennig i ymgymerwyr statudol;

Arwain ar greu a rheoli systemau rheoli meddiannaeth y rhwydwaith, polisïau a phrosesau;

Ymgymryd â rôl Noddwr y Prosiect ar gyfer comisiynu gwasanaethau;

Rheoli cyllidebau ar gyfer yr holl swyddogaethau'n ymwneud â meddiannaeth y rhwydwaith.



## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

Gallu arwain a chydlynu staff a darparwyr gwasanaeth.
Gallu trefnu blaenoriaethau gwaith, cynllunio ymlaen llaw a chyflwyno rhaglenni gwaith yn brydlon.
Gallu cydlynu a rheoli gwaith yn effeithiol.
Gallu gweithio dan bwysau
Yn ymroddgar ac â’r gallu i gymell ei hun

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

HNC, Gradd neu gyfystyr mewn disgyblaeth peirianneg berthnasol

## Profiad perthnasol

Profiad perthnasol o reoli cydymffurfiaeth â’r Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd a’r Ddeddf Rheoli Traffig
Profiad o reolaeth weithredol o briffyrdd.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Sgiliau rhyngbersonol cadarn ynghyd â sgiliau ysgrifennu a chyflwyno da.
Gwybodaeth drylwyr o ddeddfwriaeth, safonau a pholisïau eraill sy’n ymwneud â rheolaeth weithredol o briffyrdd.
Trwydded Yrru Gyfredol.

## Gofynion ieithyddol

Ar gyfer y swydd hon, mae’r gallu i gyfathrebu yn y Saesneg yn hanfodol ag y Gymraeg yn ddymunol

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio’n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.